**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD, GWESTY ERYROD, LLANRWST, NOS LUN, HYDREF 31ain, 2022**

**PRESENNOL**

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Cyng. Eifion Williams,
Cyng. Anwen Jones, Cyng Nerys Dobson, Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir) Cyng Arron Wynne(Cynghorydd Sir)

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Dylan Jones, Cyng. Arwel Ll Jones,

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar Fedi, 26ain, 2022.

**1.MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

1.1 **LLINELLAU MELYN GYFERBYN AC YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, FFORDD TYRPEG UCHAF**

Y Cyngor yn dal i fonitro'r cerbydau sydd yn parcio ar y llinellau melyn gyferbyn a Ysgol Llanddoged.

1.2 **ARCHWILIAD ALLANOL CYFRIFON Y CYNGOR**

Eglurodd y clerc fod yr archwilwyr allanol ' Archwilio Cymru' wedi cwblhau'r archwiliad llawn ar gyfer y Cyfrifon sydd yn diweddu 31ain Mawrth, 2021 a nodwyd nad oes unrhyw faterion wedi codi sy'n rhoi achos o bryder.

1.3 **CAIS GRANT' DATBLYGU GWLEDIG CONWY'**

Cyhoeddodd y clerc fod y cais grant am ddau fwrdd picnic ar gyfer Cae Cetyn, Llanddoged wedi ei gymeradwyo gan yr Adran Datblygu Wledig Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a bydd y Cyngor Cymuned yn gallu symud ymlaen i gychwyn ar y gwaith i'w gosod mor fuan â phosib.
Pasiwyd i aelodau'r cyngor i gyfarfod yn y cae chwarae Cae Cetyn i weld ble i osod y byrddau a hefyd i'r clerc gysylltu gyda Phennaeth yr ysgol i gael ei farn ef o ble fydd yn gyfleus i'w gosod.

1.4. **CYNNAL A CHADW O'R CYFARFOD DIWETHAF**

a) Arwydd 'Anaddas i Gerbydau Trwm' Groesffordd PenBryn Bach Llanddoged wedi dod i lawr.
Y mater yma wedi cael ei gofnodi ar y system 'ERF' Conwy ond heb gael ei gwblhau ar hyn o bryd.
b )Ffordd yn gostwng a gwyro i un ochr ar ffordd Bryn Saith rhwng Rhiwlas a Bryn Saith a hefyd nifer o dyllau angen eu llenwi ar hyd y ffordd yma.
Emyr Jones, Swyddog o'r Adran Priffyrdd wedi cysylltu gyda'r clerc i roi gwybodaeth ei fod am ymchwilio i'r materion ar ffordd Bryn Saith.

**2. CYNLLUNIO**

2.1 **Cyfeirnod 0/50116** Mr Guto Roberts 282451 Gogledd: 364720 Amrywio amodau 2, 3 a 9 o ganiatâd cynllunio 0/48569 (Dymchwel arfaethedig yr eiddo presennol a chodi annedd newydd gyda draeniau cysylltiol a gwaith tirlunio) i ganiatáu addasiadau i'r deunyddiau a thirlunio Waen Oer Ffordd Ffrith Llanddoged Llanrwst LL26 0LJ
Trafodwyd y cais cynllunio a phasiwyd drwy aelodau codi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

**3. CYNNAL A CHADW**

3.1 Y coed a'r gwrychoedd angen cael eu torri yn ôl ar yr A470 wrth Plas Maenan Lodge, Maenan.
Cytunodd Cyng. Arron Wynne i gyfeirio'r mater yma at yr Adran Cefnffordd A470.

4. **UNRHYW FATER ARALL**

4.1 **CAIS ARIANNOL**

Derbyniwyd llythyr gan Urdd Gobaith Cymru Conwy yn holi am gyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned. Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gadael y cais ar y bwrdd a chefnogi yr ysgol os bydd angen ar gyfer unrhyw weithgaredd yr Urdd.

4.2 **COED YN GORDYFU AR FFENS YSGOL GYNRADD LLANDDOGED**

Rheolwr Busnes Ysgol Gynradd Llanddoged wedi cysylltu yn holi sut i gael gwared a choed eiddew sydd yn tyfu tu allan i ffens yr ysgol ar Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.

Y clerc wedi cyfeirio'r mater yma at yr Adran 'ERF' Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

4.3 **TALIADAU ETHOLIADAU**

Cyhoeddodd y clerc ei bod wedi anfon siec o £270 at yr Adran Etholiadau ar gyfer y costau etholiadau a gynhaliwyd mis Mai 2022.

4.4 **COEDEN NADOLIG**

Derbyniwyd gwybodaeth fod Mr Gareth Jones wedi archebu Coeden Nadolig ar gyfer y pentref.

Bydd Cyng. John Owen a Cyng Alun Morris yn cynorthwyo i osod y goeden ar goleuadau.

Bydd y clerc yn cysylltu gyda "Bryn Electric Cyf' i gwblhau y gwaith 'pat testio' y cwpwrdd trydanol eto eleni.

4.5 **LLWYBR RHIF 21 NANT, PONT CROES LLANDDOGED**

Adroddwyd y Cadeirydd fod Cyng Nia Clwyd wedi ymweld a llwybr cyhoeddus rhif 21 Nant, Pont Croes heddiw er mwyn cael gweld y cyfeiriad cywir y mae y llwybr angen ei gyfeirio. Bydd hi yn trafod y mater gyda yr adran llwybrau cyhoeddus y sir ac yn adrodd yn ol i'r cyngor cymuned yn y cyfarfod nesaf.

4.6 **LLOCHES CYNNES**

Nodwyd Cyng Arron Wynne fod y Lloches Cynnes wedi cael ei sefydlu yng Nghlasdir Llanrwst ar gyfer unrhyw un sydd ei angen.